# Newid arfaethedig i reolau mewn perthynas â dirmyg llys; aildddrafftio CPR Rhan 81

Mae hwn yn ymarferiad ymgynghori gan y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 9 Mawrth 2020.

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 1 Mai 2020.

## Cyflwyniad

Mae'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil (CPRC) yn ystyried a ddylid gwneud diwygiadau i Ran 81 Rheolau Trefniadaeth Sifil mewn perthynas â'r arferion a'r gweithdrefnau ynghylch dirmyg llys.

O ystyried natur eang y rheolau ynghylch dirmyg llys, mae hwn yn ymgynghoriad cyhoeddus traws-awdurdodaeth sydd wedi ei anelu at bob defnyddiwr a defnyddwyr posibl o nid yn unig y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr, ond awdurdodaethau eraill hefyd, yn cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn rheolaeth weithdrefnol sydd yn gymwys i achosion dirmyg llys y tu allan i'r CPR h.y. mewn achosion teulu, ansolfedd a throseddol, ac unrhyw awdurdodaethau perthnasol eraill.

Mae rhestr o'r prif gyrff proffesiynol a grwpiau cynrychioliadol yr ymgynghorir â nhw yn cael ei nodi ar ddiwedd y ddogfen hon. Nid yw'n fwriad i'r rhestr fod yn gyflawn, a chroesawir ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb yn y pwnc a drafodir yn y papur yma neu sydd â safbwyntiau arno.

## Manylion cysylltu/Sut i ymateb

Mae'r CPRC yn gwahodd ymatebion ysgrifenedig gan ddefnyddwyr a defnyddwyr posibl y darpariaethau newydd.

Mae'n rhaid derbyn yr ymatebion yn ddim hwyrach na 5pm ar 1 Mai 2020. Gellir ymateb i'r ymgynghoriad drwy e-bost neu'r post, a dyma'r manylion:

**E-bostio:** CPRCconsultation@justice.gov.uk. Nodwch "Ymgynghoriad Dirmyg Llys Rhan 81" yn llinell pwnc eich e-bost.

**Postio i:** Carl Poole, Ysgrifennydd y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil
Post Point 10.24, c/o Ministry of Justice, 102 Petty France, London SW1H 9AJ

**Sylwer os gwelwch yn dda:**

**Fformat cyflwyno:** Os ydych yn bwriadu anfon dogfen PDF, byddai'n fuddiol petaech yn gallu anfon dogfen Word yn ogystal er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o ddadansoddi'r ymatebion. Dim ond y ddogfen PDF fydd yn cael ei chadw fel y ddogfen ymateb.

**Cwynion neu sylwadau:** Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori dylech gysylltu ag Ysgrifennydd y CPRC yn y cyfeiriad uchod.

**Cylchredeg a chopïau ychwanegol:** Mae copïau o'r ddogfen ymgynghori yn cael eu hanfon at amrywiol randdeiliaid, ac mae rhestr wedi ei chynnwys ar ddiwedd y ddogfen hon. Nid yw'r rhestr yn gyflawn, a chroesawir ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb yn y pwnc neu sydd â safbwyntiau arno. Gellir cael mwy o gopïau gan y Ysgrifenyddiaeth fel uchod.

**Grwpiau cynrychiadol** Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

**Cyfrinachedd:** Gellir cyhoeddi neu ddatgelu'r wybodaeth a ddarperir yn yr ymgynghoriad hwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol yn unol â'r cyfundrefnau mynediad i wybodaeth a gweithdrefnau GDPR (sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (DRhG), Deddf Diogelu Data 1998 (DDD) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004). Os ydych eisiau i'r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, byddwch yn ymwybodol, o dan y DRhG, bod yna God Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef, ac mae hwnnw'n delio ag ymrwymiadau o ran cyfrinachedd, ymysg materion eraill. O ystyried hynny, byddai'n help i ni petaech yn gallu egluro pam eich bod yn ystyried bod y wybodaeth yr ydych wedi ei darparu yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd o dan pob amgylchiad. Ni ystyrir y bydd ymwrthodiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo ei hun, yn ymrwymo'r CPRC. Bydd y CPRC yn prosesu eich data personol yn unol â'r DDD, ac yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hynny yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partïon.

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth yn cael eu nodi yn yr egwyddorion ymgynghori, y gellir eu gweld yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/492132/20160111_Consultation_principles_final.pdf

**Yr Iaith Gymraeg:** Mae papur ymgynghori yn yr Iaith Gymraeg ar gael drwy'r Ysgrifenyddiaeth.

I gael mwy o wybodaeth am Gynllun Yr Iaith Gymraeg:

https://www.gov.uk/government/publications/moj-welsh-language-scheme-2018

**Mae copïau o'r papur ymgynghori yn cael eu hanfon at:**

Ond nid yw'n fwriad i'r rhestr fod yn gyflawn, a chroesawir ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb yn y pwnc  drafodir yn y papur yma neu sydd â safbwyntiau arno.

**Cyrff Deddfwriaethol a Chyfreithiol yn cynnwys:**

- Cofrestrydd y Goruchaf Lys
- Yr Arglwydd Prif Ustus
- Meistr y Roliau
- Llywydd Is-Adran Mainc y Frenhines
- Llywydd yr Is-adran Deuluoedd
- Canghellor yr Uchel Lys
- Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd
- Yr Uwch Farnwr Gweinyddol
- Y Dirprwy Uwch Farnwr Gweinyddol
- Barnwyr Gweinyddol
- Yr Anrhydeddus Mrs Ustus Lieven
- Yr Anrhydeddus Mr Ustus Nicklin
- Yr Anrhydeddus Mr Ustus Newton
- Yr Anrhydeddus Mrs Ustus Roth
- Cymdeithas Barnwyr yr Uchel Lys
- Cyngor Barnwyr Cylchdaith EM
- Barnwyr Sifil Dynodedig
- Barnwyr Preswyl Llys y Goron
- Uwch Feistr Fontaine
- Cymdeithas Meistri'r Uchel Lys
- Uwch Farnwr Rhanbarthol (Prif Ustus)
- Cymdeithas Barnwyr Rhanbarth EM

- Cyngor Barnwyr Rhanbarth EM (Llysoedd Ynadon)
- Cymdeithas Barnwyr Benywaidd y Deyrnas Unedig
- Cymdeithas yr Ynadon
- Gweithrediaeth Arweinyddiaeth yr Ynadon
- Yr Atwrnai Cyffredinol
- Cymdeithas Clercod Ynadon
- Cofrestrydd Apeliadau Troseddol
- Cyngor y Bar
- Cymdeithas Bar y Siawnsri
- Cymdeithas y Bar Troseddol
- Cymdeithas Bar Cyfraith Deuluol
- Comisiwn y Gyfraith
- Cymdeithas y Gyfraith
- Cymdeithas Cyfreithwyr Cyfraith Droseddol
- Cymdeithas Cyfreithwyr Llysoedd Cyfraith Droseddol Llundain
- Cymdeithas Eiriolwyr Uchel Lys i Gyfreithwyr
- Sefydliad Siartredig Gweithredwyr Cyfreithiol
- Cyfreithwyr Awdurdodau Lleol
- Cymdeithas Cyfreithwyr Costau
- Cymdeithas Cyfreithwyr Plant
- Cymdeithas Cyfreithwyr Herwgydio Plant
- Yr Athro Ormerod CF

**Ysgrifenyddiaethau'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth:**

- Ysgrifenyddiaeth  Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Teuluol
- Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Troseddol
- Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor Trefniadaeth Tribiwnlysoedd
- Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor Rheolau Ansolfedd

**Cyrff Defnyddwyr a grwpiau Rhanddeiliaid yn cynnwys:**

- Cymdeithas Defnyddwyr Llysoedd Sifil
- Cyngor ar Bopeth
- Uned Cymorth Personol / Cymorth drwy'r Llys
- Rhwydwaith Canolfannau Cyfraith
- Cymdeithas Cyfreithwyr Anafiadau Corfforol
- Fforwm Cyfreithwyr Yswiriant
- Cynghrair Gwasanaethau Cynghori
- Cyngor i Rentwyr
- Advice UK
- Age UK
- Ysgol y Gyfraith BPP
- Sefydliad Siartredig Rheoli Credyd
- Cyngor Ariannol Cymunedol
- Cymdeithas Gwasanaethau Credyd
- Crisis
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Sefydliad Ymgynghorwyr Ariannol
- Sefydliad Polisi Arian ac Iechyd Meddwl

- Cyngor Defnyddwyr Cenedlaethol
- Sefydliad Cyngor ar Ddyled
- Pink Tape
- Resolution
- Social Work England
- Which?
- Cyfraith Ymarferol
- Whitebook
- Greenbook

**Adrannau Eraill Llywodraeth Leol a chyrff yn cynnwys:**

- Cymdeithas Llywodraeth Leol
- Adran Gyfreithiol y Llywodraeth
- Grŵp Erlynwyr Whitehall
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
- Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM
- Y Swyddfa Gartref
- Gwasanaeth Prawf y Goron
- Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu
- Swyddfa Twyll Difrifol
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant
- Mabwysiadu a Maethu Prydain (Coram)
- Cafcass
- Cafcass (Cymru)
- Cyngor Cyfryngu Teuluol
- Grŵp Hawliau Teuluoedd
- Cyngor Cyfiawnder Sifil
- Cyngor Cyfiawnder Teuluol
- Y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol
- Comisiynydd Plant Lloegr
- Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant

# Rhagair

Y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil ("CPRC") sydd yn gyfrifol, o dan ddarpariaethau Deddf Trefniadaeth Sifil 1997 ("Deddf 1997"), am lunio rheolau'r llys sydd yn rheoli'r arferion a'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn yn y Llys Apêl (Is-Adran Sifil), yr Uchel Lys a'r Llys Sirol, gyda'r amcan o sicrhau bod y system gyfiawnder yn hygyrch, teg ac effeithlon, a bod rheolau yn syml ac yn cael eu mynegi yn syml. Mae'r CPRC yn amcanu i barhau i adolygu'r Rheolau Trefniadaeth Sifil ("CPR") a'r ffordd y'u rhoddir ar waith, ac ystyried a ydynt yn bodloni'r amcanion hynny.

O dan adran 3 Deddf 1997, bydd y CPRC, cyn llunio rheolau, yn ymgynghori â'r cyfryw unigolion y mae'n ystyried sydd yn briodol. Un maes ble mae'n ymddangos bod CPR yn anfoddhaol yw dirmyg llys, ac ymdrinnir â hynny yn Rhan 81. Mae nifer o uwch farnwyr wedi cyfeirio at eiriad anfoddhaol Rhan 81 ac wedi mynegi gobaith y byddai CPRC yn ystyried ei adolygu; gweler e.e. *A-G v Yaxley-Lennon* [2019] EWHC 1791 (Gweinyddol) *a Chyfreithiwr Cyffredinol EM v. Holmes* [2019] EWHC 1483 (Gweinyddol).

Ym mis Gorffennaf 2019, sefydlodd CPRC is-bwyllgor er mwyn ystyried y mater. Yn ei gyfarfod ym mis Medi, cymeradwyodd CPRC farn yr is-bwyllgor bod agweddau gweithdrefnol achosion dirmyg llys yn achosi anawsterau yn rheolaidd ac y dylai'r is-bwyllgor edrych ar ffyrdd o symleiddio, crynhoi ac atgyfnerthu'r rheolau gweithdrefnol er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu yn decach ac yn lleihau nifer yr achosion pan ganfyddir annhegwch gweithdrefnol.


Mae Rhan 81 yn cynnwys rheolau a symudwyd o Reolau'r Goruchaf Lys, heb fawr o ddiwygiadau, i'r CPR. Ni roddwyd i'r is-bwyllgor oedd yn ymgymryd â'r ymarferiad hwn yn 2010-12 y cylch gwaith o symleiddio ac ailstrwythuro'r rheolau gweithdrefnol ynghylch dirmyg llys. Roedd yn ymarferiad "codi a symud". O ganlyniad i hynny, mae Rhan 81 yn ddarniog, maith, cymhleth ac ailadroddus. Mae'n efelychu cyfraith sylwedd yn ogystal â delio â threfniadaeth. Yna mae'r cynnwys gweithdrefnol yn cael ei ailadrodd i raddau helaeth mewn Cyfarwyddyd Ymarfer (PD), a ategir gan PD arall a Chanllawiau Ymarfer (PG) gan Yr Arglwydd Brif Ustus. Mae CPR PD4 yn disgrifio dim llai na 27 o Ffurflenni rhagnodedig i'w defnyddio mewn achosion dirmyg llys.

Nid yw'n hawdd rhoi Rhan 81 ar waith yn yr amgylchedd ymgyfreitha presennol. Mewn Rhan 81 a ailddrafftir, rydym yn cynnig dull newydd sydd (a) yn hepgor y gyfraith sylwedd bron yn gyfan gwbl a (b) sydd yn delio â threfniadaeth rheolau nid PDau (c) sydd yn creu cod gweithdrefnol unffurf i'w ddefnyddio ym mhob achos dirmyg llys ble mae CPR yn gymwys (ch) sydd yn nodi gofynion cymwys mewn rheolau yn hytrach na mewn PD neu Ganllawiau Ymarfer a (d) sydd yn lleihau nifer y ffurflenni rhagnodedig.

Gofynnwyd am sylwadau cychwynnol gan y Gymdeithas Barnwyr Rhanbarthol, Cyngor Barnwyr Cylchdaith a Chymdeithas Barnwyr yr Uchel Lys.  Mynegodd y tri chorff gefnogaeth gyffredinol i ailddrafftio Rhan 81, a hefyd swyddfa'r Atwrnai Cyffredinol.

Mae'r Is-bwyllgor wedi cyfathrebu'n rheolaidd â'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Teuluol, gan gydnabod manteision unffurfiaeth, cyhyd â phosibl, rhwng rheolau awdurdodaeth y llysoedd teuluol ac awdurdodaeth CPR.  Bydd yr ymgynghoriad hefyd yn gofyn am safbwyntiau y rhai sydd yn llunio rheolau trefniadaeth mewn perthynas â dirmyg llys mewn awdurdodaethau eraill, yn benodol mewn achosion cyfraith troseddol ac ansolfedd.

Rwyf yn edrych ymlaen at dderbyn eich safbwyntiau ar yr amrywiol gynigion a'r cwestiynau a nodir ac a ofynnir yn yr ymgynghoriad yma, a'u hystyried.



**Yr Arglwydd Ustus Coulson**

**Dirprwy Bennaeth Cyfiawnder Sifil**

# Ymgynghoriad

**PWYLLGOR RHEOLAU TREFNIADAETH SIFIL**

**IS-BWYLLGOR DIRMYG LLYS**

**AILDDRAFFTIO ARFAETHEDIG CPR RHAN 81**

**(wedi ei anodi)**

## Rhan 81 - Ceisiadau ac Achosion mewn Perthynas â Dirmyg Llys

### Rheol 81.1

### 81.1 - Cwmpas

(1) Mae'r rhan yma yn gymwys pryd bynnag fo Is-Adran Sifil y Llys Apêl, yr Uchel Lys neu'r llys sirol yn penderfynu ar achosion mewn perthynas â dirmyg llys ("achosion dirmyg llys").

(2) Nid yw'r Rhan yma yn newid cwmpas na maint awdurdodaethau perthnasol y llysoedd hynny, boed hynny yn gynhenid, statudol neu'n unol â chyfraith gyffredin.

(3) Mae'r Rhan yma yn weithredol yn ddarostyngedig i, ac i'r graddau y mae yn gyson â chyfraith sylwedd dirmyg llys a gymhwysir gan y llysoedd hynny.

*Nodyn ar 81.1:*

*Mae'r rheol hon (i) yn ailadrodd yn fwy cryno y diarddeliad yn y Rhan 81 presennol o unrhyw ymdrech i newid y gyfraith sylwedd a (ii) mae'n sicrhau bod yr amrywiol fathau o ddirmyg llys sydd ar hyn o bryd mewn adrannau ar wahân yn y Rhan 81 presennol yn cael eu cynnwys yng nghwmpas Rhan 81.*

*Mae achosion dirmyg llys yn cynnwys defnyddio awdurdodaeth yr Uchel Lys, naill ai'n gynhenid neu o dan unrhyw ymddeddfu, i oruchwylio ymddygiad mewn achosion mewn is lysoedd neu dribiwnlysoedd, ac i gosbi'r unigolion sydd yn gysylltiedig ag achosion o'r fath.*

**Rheol 81.2**

**81.2- Dehongli**

Yn y Rhan hon:

mae “hawlydd” yn golygu person sydd yn gwneud cais dirmyg llys;

mae “cais dirmyg llys” yn golygu cais i’r llys am orchymyn mewn achos dirmyg llys;

mae “diffynnydd” yn golygu y person y gwneir y cais yn ei erbyn;

mae “hysbysiad o gosb” yn golygu hysbysiad amlwg ar flaen rhybudd gorchymyn os bydd y person y rhoddir y gorchymyn yn ei erbyn (ac yn achos corff corfforaethol, cyfarwyddwr neu swyddog yn y corff hwnnw) yn anufuddhau i orchymyn y llys, gall y person hwnnw (neu gyfarwyddwr neu swyddog) fod yn euog o ddirmyg llys a gall gael ei gosbi ar ffurf dirwy, carchar neu atafaelu asedau.

<u>*Nodyn ar 81.2:*</u>

*Mae’n well gennym hawlydd a diffynnydd yn hytrach nag ymgeisydd ac ymatebydd.  Mewn achosion dirmyg llys, y person pwysig yw’r diffynnydd.  Mae partïon heb gynrychiolaeth yn fwy tebygol o ddeall y gair diffynnydd yn hytrach nag ymatebydd.*

*Mae yna wahanol fathau o hysbysiadau o gosb yn y Rhan 81 presennol, yn Rhan 71 ac mae yna o leiaf un arall mewn dogfen ganllawiau.  Mae’r diffiniad yn amalgam sydd yn cynnwys yr holl feysydd mor grymo â phosibl (amlygrwydd, cyrff cyhoeddus a mathau o gosb).*

**Rheol 81.3**

**81.3- Sut mae gwneud cais am ddirmyg llys**

(1) Gwneir cais am ddirmyg llys mewn achosion presennol yn yr Uchel Lys neu lys sirol drwy hysbysiad cais o dan Ran 23 yn yr achosion hynny, p'un a bod y cais hwnnw yn cael ei wneud yn erbyn parti yn yr achosion hynny neu beidio.

(2) Os gwneir y cais yn yr Uchel Lys, bydd barnwr Uchel Lys y Rhanbarth ble cynhelir yr achos yn penderfynu arno. Os gwneir y cais mewn llys sirol, bydd Barnwr Cylchdaith fydd yn eistedd yn y llys sirol yn penderfynu arno.

(3) Mae cais am ddirmyg llys mewn perthynas ag ymyrraeth honedig mewn perthynas â gweinyddu cyfiawnder yn ddyledus, ac eithrio mewn achosion presennol mewn Uchel Lys neu lys sirol, yn cael ei wneud drwy gais i'r Uchel Lys o dan Rhan 8.

(4) Pan fo cais o dan Rhan 8 yn cael ei wneud o dan baragraff (3) uchod, bydd y rheolau yn Rhan 8 yn gymwys ac eithrio fel y'u haddaswyd gan y Rhan yma, ac ni fydd yn ofynnol i'r diffynnydd gydnabod bod y cais wedi ei gyflwyno.

(5) Os bydd angen caniatâd i wneud y cais, bydd y cais am ganiatâd yn cael ei gynnwys yn y cais am ddirmyg llys, a bydd hynny yn mynd rhagddo i wrandawiad llawn dim ond os rhoddir caniatâd.

(6) Os bydd angen caniatâd a bod y cais yn gysylltiedig ag achos yn yr Uchel Lys, bydd un barnwr yn yr Rhanbarth ble cynhelir yr achos yn penderfynu ar y cais am ganiatâd. Os rhoddir caniatâd bydd un barnwr neu Lys Rhanbarthol y Rhanbarth hwnnw yn penderfynu ar y cais.

(7) Os bydd angen caniatâd ac nad yw'r cais yn gysylltiedig ag achos llys presennol neu'n gysylltiedig ag achosion mewn llys troseddol neu sirol neu achos yn Is-adran Sifil y Llys Apêl, bydd un barnwr yn y Llys Gweinyddol yn penderfynu ar fater caniatâd. Os rhoddir caniatâd bydd Llys Rhanbarthol y Rhanbarth yn penderfynu ar y cais am ddirmyg llys.

(8) Mae angen caniatâd i wneud cais dirmyg llys pan fo'r cais yn cael ei wneud mewn perthynas ag:

(a) ymyrryd â gweinyddu cyfiawnder yn ddyledus, ac eithrio mewn perthynas ag achosion presennol yn yr Uchel Lys neu lys sirol;

(b) honiad o roi datganiad ffug yn fwriadol mewn unrhyw affidafid, cadarnhad neu unrhyw ddogfen arall a ddilysir gan ddatganiad o'r gwirionedd neu mewn datganiad datgelu.

<u>*Nodyn ar 81.3*</u>

*Mae'r rheol yma yn delio â sut mae gwneud cais traddodi ac yn benodol gyda lefel y llys a'r barnwr y dylid cyflwyno'r cais am ganiatâd iddynt, pan fo angen caniatâd.*

*Mae'r rheol newydd 81.3(8) yn ceisio cynnwys, mewn llai o eiriau nag sydd yn y fersiwn bresennol, yr achosion pan fo angen caniatâd ar hyn o bryd. Ymdrinnir â'r trothwy ar gyfer rhoi caniatâd mewn cyfraith achos.*

*Mater i'w drafod yw a ellid rhoi caniatâd gan un barnwr Llys Gweinyddol pan fydd yr achos dirmyg llys, os rhoddir caniatâd, yn cael ei benderfynu gan Lys Rhanbarthol. Ni allwn weld pam na ellid gwneud hynny, ond mae'n benderfyniad polisi.*

*Gallai unigolion a awdurdodir o dan a.9(1) a (4) Deddf Uwch Lysoedd 1981 i eistedd fel barnwr iau yn yr Uchel Lys gael y pŵer i draddodi am ddirmyg llys: o dan a.9(4) "gall weithredu fel barnwr iau yr Uchel Lys"; ac o dan a.9(6) "tra'n gweithredu o dan yr adran hon, yn ddarostyngedig i.... [eithriadau amherthnasol] gellir ei ddefnyddio at bob diben, ac yn unol â hynny gall berfformio unrhyw swyddogaeth, barnwr yn y llys ble mae'n gweithredu".*

*Ond, ar hyn o bryd mae rheolau trefniadaeth yn cyfyngu ar weithredu awdurdodaeth gan unigolion nad ydynt yn farnwyr Uchel Lys cyflogedig ond a awdurdodir o dan a.9(1) neu (4) i eistedd yn yr Uchel Lys. Mae hynny yn unol ag a.19(3) Deddf Uwch Lysoedd 1981: "dim ond un barnwr y llys hwnnw all weithredu unrhyw awdurdodaeth yr Uchel Lys, ac eithrio pan fo hynny yn unol â.... (b) rheolau llys y rhoddwyd grym i'w gweithredu gan .... unrhyw berson arall." Mae'r pŵer i lunio rheolau "sydd yn rheoli'r arferion a gweithdrefnau sydd i'w dilyn yn...yr Uchel Lys" i'w cael yn a.1 Deddf Trefniadaeth Sifil 1997.*

*Nid ydym wedi ffurfio barn ynghylch a ddylai unigolion nad ydynt yn farnwyr Uchel Lys cyflogedig ond sydd yn eistedd fel barnwyr neu ddirprwy farnwyr yn yr Uchel Lys eistedd mewn achosion dirmyg llys. Gellid delio â'r mater yn rheolau'r llys mewn man arall yn y CPR (e.e. rheol 2.4 a Chyfarwyddyd Ymarfer 2B). Bydd barn yr uwch farnwriaeth yn bwysig mewn perthynas â'r mater yma.*

*Penderfyniad polisi arall na ymdrinnir ag ef yma yw p'un ai neu i ba raddau y dylid rhoi'r grym i farnwyr rhanbarthol a/neu Feistri i benderfynu ar achosion dirmyg llys a chosbi dirmygwyr. Nid ydym wedi ffurfio barn ynghylch a ddylid newid y sefyllfa bresennol. Ar hyn o bryd mae barnwyr rhanbarthol yn delio â rhai materion dirmyg llys e.e. gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol (gweler PD 2B, para 8.1 a 8.3; cf. CPR r.2.4).*

*Os mai'r farn fynychaf yw na ddylid ymestyn pŵer barnwyr rhanbarthol yn y llys sirol na Meistri yn yr Uchel Lys i ddelio ag achosion dirmyg llys y tu hwnt i'r cyfyngiadau presennol, mae hynny yn cael ei adlewyrchu yn y rheol drafft 81.3(2), fel a nodir uchod. Os nad, bydd angen addasu paragraff (2).*

**Rheol 81.4**

**81.4 - Gofynion cais dirmyg llys**

(1) Oni bai bod y llys yn rhoi cyfarwyddyd fel arall, ac i'r graddau y gwneir hynny, mae'n rhaid i bob cais dirmyg llys gael ei ategu gan dystiolaeth ysgrifenedig a roddir drwy affidafid neu gadarnhad.

(2) Mae'n rhaid i gais dirmyg llys gynnwys datganiadau o'r canlynol i gyd, oni bai eu bod yn hollol anghymwys.

(a) natur y dirmyg llys honedig (er enghraifft, torri gorchymyn neu ddirmyg yn wyneb y llys);

(b) telerau unrhyw orchymyn a dorrwyd neu yr anufuddhawyd iddo yn honedig;

(c) cadarnhad bod y unrhyw orchymyn o'r fath wedi cael ei roi yn bersonol, a dyddiad ei roi, oni bai fod y llys neu'r partïon wedi hepgor rhoi yn bersonol;

(d) os bu i'r llys hepgor rhoi yn bersonol, telerau a dyddiad gorchymyn y llys i hepgor rhoi'n bersonol;

(e) cadarnhad bod unrhyw orchymyn a dorrwyd neu yr anufuddhawyd iddo yn cynnwys hysbysiad o gosb;

(f) telerau unrhyw ymgymeriad a dorrwyd yn honedig;

(g) cadarnhad o gred yr hawlydd bod y person a roddodd unrhyw ymgymeriad yn deall telerau hynny y chanlyniadau methu â chydymffurfio â hynny;

(h) y ffeithiau honedig sydd yn golygu y bu dirmyg llys, wedi eu nodi mewn trefn gronolegol;

(i) bod gan y diffynnydd hawl i gael cynrychiolaeth gyfreithiol yn yr achos dirmyg llys a gall fod ganddo hawl i gael gwasanaeth cyfieithydd;

(j) bod gan y diffynnydd hawl i gael cyfle rhesymol i gael cynrychiolaeth gyfreithiol ac i wneud cais am gymorth cyfreithiol;

(k) bod gan y diffynnydd hael i gael amser rhesymol i baratoi ar gyfer gwrandawiad a bod ganddo hawl i gyflwyno tystiolaeth tystion, yn ysgrifenedig neu ar lafar, fel rhan o'i amddiffyniad;

(l) bod gan y diffynnydd hawl i aros yn dawel ac i wrthod ateb unrhyw gwestiwn y gallai'r atebion iddynt argyhuddo'r diffynnydd;

(m) bydd y llys ond yn rhoi gorchymyn traddodi pan fo’n fodlon y tu hwnt i amheuaeth rhesymol o’r ffeithiau sydd yn cyfateb i ddirmyg llys a’u bod yn golygu y bu dirmyg llys;

(n) os bydd y llys yn fodlon bod y diffynnydd wedi cyflawni dirmyg llys, gall y llys gosbi’r diffynnydd ar ffurf dirwy, carchariad neu atafaelu asedau;

(o) os bydd y diffynnydd yn cyfaddef i’r dirmyg llys ac yn dymuno ymddiheuro i’r llys, bod hynny yn debygol o leihau difrifoldeb unrhyw gosb gan y llys;

(p) bydd canfyddiadau’r llys yn cael eu darparu'n ysgrifenedig cyn gynted ag sy’n ymarferol ar ôl y gwrandawiad; a

(q) bydd y llys yn eistedd yn gyhoeddus, oni bai bod y llys yn gorchymyn fel arall, ac i’r graddau y gwneir hynny, bydd ei ganfyddiadau yn cael eu cyhoeddi.

*Nodyn ar 81.4:*

*Y rheol hon yw conglfaen drafft newydd Rhan 81.  Bwriedir iddo weithredu fel gwarantydd tegwch gweithdrefnol ac mae’n ymgorffori gofynion tegwch gweithdrefnol i’r diffynnydd. Os cydymffurfir â’r rheol, mae’n debyg y cyflawnir tegwch gweithdrefnol.*

*Mae’r rheol yn nodi beth mae’n rhaid i gais dirmyg llys ei gynnwys, ond hefyd, yn allweddol, mae’n addysgu’r partïon a’r barnwr drwy eu hatgoffa beth yw gofynion tegwch gweithdrefnol a chyfiawnder agored.*

*Dylai’r rheol gael ei hategu gan un ffurflen newydd sydd yn adlewyrchu’r cynnwys, ynghyd â thempled electronig (neu bapur i’r rhai sydd wedi eu hallgau’n ddigidol) i’w llenwi, er mwyn sicrhau tegwch gweithdrefnol.  Rydym yn ystyried y dylai’r ffurflenni mwyaf niferus a ddefnyddir ar hyn o bryd gael eu neilltuo i ymarferiad dilynol ar wahân.*

*Gall gwarediad diannod o achosion dirmyg llys fod yn anghysondeb gweithdrefnol hyd yn oed gyda chaniatâd y cyhuddedig, yn arbennig os na fydd ganddo ef neu hi gynrychiolaeth.  Gall hynny dal ddigwydd mewn achosion o ddirmyg yn wyneb y llys.  Nid mater i reolau’r llys yw p’un a ddylai neu all y barnwr y dirmygwyd ei lys ddelio â’r achos.*

**Rheol 81.5**

**81.5 - Cyflwyno cais dirmyg llys**

(1) Oni bai fod y llys yn rhoi cyfarwyddyd fel arall, ac eithrio fel y darperir yn (2) isod, mae'n rhaid cyflwyno cais dirmyg llys a thystiolaeth gefnogol i'r diffynnydd yn bersonol.

(2) Pan fo cynrychiolydd cyfreithiol ar ran y diffynnydd ar gofnodion yr achos sydd yn ymwneud neu'n gysylltiedig â dirmyg llys honedig:

(a) gellir cyflwyno'r cais dirmyg llys a'r dystiolaeth gefnogol i gynrychiolydd y diffynnydd oni bai fod y cynrychiolydd yn gwrthwynebu hynny yn ysgrifenedig o fewn saith diwrnod o dderbyn y cais a'r dystiolaeth gefnogol;

(b) os na fydd y cynrychiolydd yn gwrthwynebu'n ysgrifenedig, mae'n rhaid iddynt ar unwaith roi copi i'r diffynnydd o'r cais dirmyg a'r dystiolaeth gefnogol a chymryd pob cam rhesymol er mwyn sicrhau bod y diffynnydd yn eu deall;

(c) os bydd y cynrychiolydd yn gwrthwynebu yn ysgrifenedig, bydd y mater ynghylch cyflwyno yn cael ei gyfeirio at farnwr y llys sydd yn delio â'r cais dirmyg; a bydd y barnwr yn ystyried sylwadau ysgrifenedig gan y partïon er mwyn penderfynu ar y materion ar y papurau, heb (oni fod y barnwr yn rhoi cyfarwyddyd fel arall) wrandawiad llafar.

*Nodyn ar 81.5:*

*Mae Rheol 81.4(1) yn rhoi grym i reolau yn Rhan 6 y CPR ynghylch cyflwyno'n bersonol a pheidio cyflwyno. Nid ydym yn gweld yr angen i'r 85.1(1) ddweud mwy. Byddai'r barnwr ond yn hepgor cyflwyno personol os bydd yn sicr bod y diffynnydd yn osgoi cyflwyno neu eisoes yn ymwybodol o, ac wedi ei hysbysu'n llawn am yr achos dirmyg llys.*

*Cyflwynir Rheol 81.5(2) er mwyn delio â phroblem benodol a nodwyd gan swyddfa'r Atwrnai Cyffredinol. Maent yn dweud bod y gofyniad i gyflwyno'n bersonol yn ddiangen yn aml pan fo cyfreithwyr wedi eu cofnodi, a bod hynny yn achosi cost ac oedi o ran gwneud cais i'r llys am orchymyn i hepgor cyflwyno'n bersonol. Rydym yn cytuno, yn ddibynnol ar gamau diogelu er mwyn sicrhau bod y diffynnydd yn cael ei hysbysu'n briodol ac yn llawn am yr achos dirmyg llys.*

**Rheol 81.6**

**81.6 - Achosion pan na wneir cais**

(1) Os bydd y llys yn ystyried bod dirmyg llys wedi ei gyflawni efallai, gall y llys benderfynu drosto ei hun a fydd am ddwyn achos yn erbyn y diffynnydd mewn achos dirmyg llys.

(2) Pan fo'r llys yn gwneud hynny, efallai bydd y llys yn gofyn i unrhyw barti arall yn yr achos i roi unrhyw gymorth i'r llys sydd yn gymesur a rhesymol, gan ystyried yr adnoddau sydd ar gael i'r parti hwnnw.

(3) Os bydd y llys yn bwrw ymlaen ohono ei hun, bydd yn rhoi gwŷs i'r diffynnydd fydd yn cynnwys y materion a nodir yn rheol 81.4(2)(a)-(q) (cyn belled â bod hynny yn gymwys) a bydd yn ofynnol i'r diffynnydd fynychu'r llys er mwyn rhoi cyfarwyddiadau.

(4) Bydd gwŷs a roddir o dan y rheol hon yn cael ei chyflwyno i'r diffynnydd yn bersonol ac i unrhyw barti arall, oni bai fod yn llys yn rhoi cyfarwyddyd fel arall. Os bydd rheol 81.5(2) yn gymwys, bydd y weithdrefn a nodir yno yn cael ei dilyn oni bai fod y llys yn rhoi cyfarwyddyd fel arall.

*Nodyn ar 81.6:*

*Er y bydd rhai efallai yn gwrthwynebu'r ffaith bod digon o bwysau eisoes ar farnwyr, mewn nifer o achosion os na fydd y barnwr yn cymryd yr awenau, ni fydd achosion o ddirmyg difrifol yn cael eu cosbi. Nid yw'n ddigonol hysbysu'r Atwrnai Cyffredinol; bydd ganddo ef neu hi flaenoriaethau pwysig eraill.*

*Mae yna gynsail yn yr ymrwymiad barnwrol i ystyried rhoi gorchymyn ataliaeth sifil pan ganfyddir nad oes gan gais unrhyw rinwedd. Yr ymrwymiad mewn perthynas â hynny (ac yma) yw ystyried y mater yn unig. Nid yw'r barnwr yn rhwymedig i wysio'r diffynnydd,*

*Dylai'r rheolau a ailddrafftir ysgafnhau'r baich; bydd gan y barnwr dempled fydd yn cynnwys materion 81.4(2)(a)-(q). Efallai y bydd gan rai llysoedd staff cyfreithiol cymwys i'w helpu i ddrafftio'r gwŷs. Os nad, y cyfan fydd raid i'r barnwr ei wneud fydd llenwi'r ffurflen dempled electronig a rhoi cyfarwyddyd i'r staff roi'r wŷs i'r diffynnydd ac i unrhyw bartïon eraill. Yna gall y barnwr anghofio am y mater os bydd yn ymddangos gerbron barnwr arall.*

*Nid ydym yn mynegi safbwynt yma ynghylch y cwestiwn a ddylai'r barnwr sydd yn rhoi'r wŷs benderfynu ar y mater hefyd mewn rhai achosion neu beidio. Ond, rydym yn credu y dylai'r wŷs ddangos i'r diffynnydd a fydd neu y gallai'r achos dirmyg llys gael ei dreialu gan y barnwr sydd yn rhoi'r wŷs neu gan farnwr gwahanol.*

*Rydym yn ymwybodol bod y term "gwŷs" (ynghyd â "chynnig") wedi cael ei ddisodli i raddau helaeth gan "gais" pan ddisodlwyd yr hen RSC gan y CPR. Yma mae'n ymddangos bod defnyddio "gwŷs" yn briodol i ddisgrifio'r ffurf yma o gyfathrebu uniongyrchol pwrpasol rhwng y llys a'r diffynnydd. Mae'n gywir, ac rydym yn credu bod pobl gyffredin yn gallu uniaethu ag ef o hyd.*

**Rheol 81.7**

**81.7 - Cyfarwyddiadau ar gyfer gwrandawiadau achosion dirmyg llys**

Bydd y llys yn rhoi'r cyfryw gyfarwyddiadau y mae'n tybio sydd yn addas ar gyfer y gwrandawiad a phenderfyniad ar achosion dirmyg llys, yn cynnwys cyfarwyddiadau i dystion fynychu ac mewn perthynas â thystiolaeth lafar, fel mae'n ystyried sydd yn briodol. Efallai na fydd y llys yn rhoi unrhyw gyfarwyddyd fydd yn gorfodi'r diffynnydd i roi tystiolaeth naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar.

**Rheol 81.8**

**81.8 - Gwrandawiadau a dyfarniadau mewn achosion dirmyg llys**

(1) Bydd pob gwrandawiad mewn achosion dirmyg llys, gyda chaniatâd y partïon neu beidio, yn cael eu rhestru a'u cynnal yn gyhoeddus oni bai fod y llys yn rhoi cyfarwyddyd fel arall.

(2) Bydd eiriolwyr a'r barnwr yn gwisgo gynau ym mhob gwrandawiad mewn achosion dirmyg llys, p'un a yw'r llys yn eistedd yn gyhoeddus neu beidio.

(3) Cyn penderfynu eistedd yn breifat am y gwrandawiad cyfan neu ran ohono, bydd y llys yn hysbysu'r wasg a'r cyfryngau darlledu cenedlaethol, drwy wasanaeth Copi Uniongyrchol Cymdeithas y Wasg.

(4) Bydd y llys yn ystyried unrhyw gyflwyniadau gan y partïon neu sefydliadau'r wasg cyn penderfynu a ddylai'r gwrandawiad fod yn breifat, ac i ba raddau.

(5) Os bydd y llys yn penderfynu eistedd yn breifat, bydd, cyn gwneud hynny, yn eistedd yn gyhoeddus er mwyn rhoi dyfarniad cyhoeddus rhesymegol fydd yn nodi pam ei fod yn gwneud hynny.

(6) Ar ddiwedd y gwrandawiad, os bydd wedi ei gynnal yn breifat neu beidio, bydd y llys yn eistedd yn gyhoeddus er mwyn rhoi dyfarniad cyhoeddus rhesymegol gan nodi ei ganfyddiadau ac unrhyw gosb.

(7) Bydd y llys yn hysbysu'r diffynnydd o'i hawl i apelio, heb fod angen caniatâd, y terfyn amser ar gyfer apelio ac i ba lys y dylid cyflwyno unrhyw apêl.

(8) Bydd dyfarniadau mewn achosion dirmyg llys yn cael eu trawsgrifio a'u cyhoeddi ar wefan barnwriaeth Cymru a Lloegr.

*Nodyn ar 81.8:*

*Mae hyn yn dyrchafu i'r rheolau, o PD 2015 LCJ, y ddarpariaeth cyfiawnder agored critigol bwysig yn PD 2015 (a'r PG dilynol sydd yn egluro'r PG). Byddai'r 81.9 newydd yn gweithredu ar y cyd â'r rheol 39.2 a ddiweddarwyd yn ddiweddar, ynghylch eistedd yn gyhoeddus ac yn breifat.*

*Efallai y tybir ei bod yn od cynnwys mater mor fanwl â gwisgo gynau mewn rheol yn hytrach na mewn nodyn canllawiau neu PD. Rydym yn credu i'r gwrthwyneb, bod cynnwys hynny yn y rheol yn rhoi pwyslais cyfiawn ar ddifrifoldeb achosion dirmyg llys.*

*Gall y cwestiwn godi ynghylch a ddylid cadw unrhyw leiafswm cyfnod sydd yn bodoli ar hyn o bryd (e.e. 7 diwrnod mewn achosion sydd yn perthyn i'r rheol 81.34(2) bresennol) y mae'n rhaid iddo ddod i ben rhwng y cyhuddiad/cyflwyno a'r gwrandawiad dirmyg llys; neu a yw tegwch gweithdrefnol yn cael ei ddiogelu'n ddigonol gan ddyletswydd y llys i roi digon o amser i'r diffynnydd baratoi.*

**Rheol 81.9**

**81.9 - Pwerau'r llys mewn achosion dirmyg llys**

(1) Gall y llys roi unrhyw orchymyn y mae'n credu sydd yn addas yn cynnwys rhoi dirwy neu gyfnod o garchariad neu atafaelu asedau.

(2) Mae rhoi gorchymyn traddodi yn golygu bod angen rhoi gwarant draddodi. Mae gorchymyn traddodi a gwarant draddodi yn dod i rym ar unwaith oni bai bod y llys yn penderfynu gohirio rhoi'r gorchymyn neu'r warant, ac i'r graddau y gwneir hynny.

(3) mae'n rhaid i orchymyn gwarant gael ei roi yn bersonol i'r diffynnydd oni bai bod y llys yn rhoi cyfarwyddyd fel arall.

(4) i'r graddau y mae'r gyfraith sylwedd yn ei ganiatáu, gall y llys atodi pŵer arestio i orchymyn traddodi.

*Nodyn ar 81.9:*

*Gellir dweud bod pwerau'r llys yn fater sydd yn ymwneud â chyfraith sylwedd. Rydym wedi sefydlu cydbwysedd rhwng byrdra a hysbysu darllenwyr am y rheol newydd (yn cynnwys barnwyr mewn is lysoedd ac ymgyfreithwyr, a gynrychiolir neu beidio) a beth yw pwerau'r llys.*

*Mae "atafaelu asedau" yn 81.9(1) yn cofleidio'r term "secwestru" a ddefnyddir ar hyn o bryd, sydd yn anodd i bartïon na chynrychiolir ei ddeall. Mae "secwestru" neu atafaelu asedau yn gam unioni am ddirmyg llys, ac mae'n arbennig o ddefnyddiol ar gyfer gorfodi taliadau dirwyon gan gyrff corfforaethol neu gyrff eraill (gweler yn gyffredinol Arlidge, Eady a Smith ar Ddirmyg Llys, 5ed argraffiad., yn 14-128ff).*

*Ond, mae secwestru hefyd, ar wahân, yn ddull o weithredu nad yw'n gysylltiedig â dirmyg llys ac fe'i rheolir gan CPR Rhan 83. Yn ôl rheol 83.2A, sydd yn peri dryswch, mae'n rhaid i gais am writ secwestru ar gyfer gorfodi dyfarniad, heb unrhyw ddirmyg llys, gael ei wneud o dan Ran VII y Rhan 81 presennol, sydd i fod i ymdrin ag achosion dirmyg llys yn hytrach na gweithredu.*

*Rydym yn cwestiynu a yw rheol 83.2A yn briodol. Efallai y byddai'n well cyfyngu Rhan 81 i achosion dirmyg llys a gadael achosion gorfodi (yn cynnwys drwy atafaelu asedau) i Ran 83, sydd eisoes yn cynnwys darpariaethau cyffredinol ynghylch dulliau o orfodi dyfarniadau drwy writiau a gwarantau. Os mai dyna'r ffordd briodol o fwrw ymlaen, mae'n ymddangos bod y rheolau maith a chymhleth presennol yn y Rhannau VII a VIII presennol yn Rhan 81 yn ddiangen.*

*Rydym yn ystyried mai mater i gyfraith sylwedd yw p'un a all llys atodi pŵer arestio.* Penderfynodd *HHJ Birss CF (fel yr oedd ar y pryd) yn achos* Westwood v Knight *[2012] EWPCC 14 yn [136]-[147] y gall y llys sirol, a'r Uchel Lys, o dan Ddeddf Llysoedd Sirol 1984, roi gwarant mainc i orfodi dirmygwr i fod yn bresennol.*

*Mae'r cwestiwn yn codi ynghylch a ddylem gynnwys terfyn amser o, dyweder, dwy flynedd, pryd y daw'r warant draddodi i ben ( o dan reol bresennol 81.30(3)); er mwyn gwarchod y dirmygwr rhag gohirio gormesol o ran gorfodi'r warant. Nid ydym wedi cynnwys darpariaeth o'r fath yn y rheol drafft, ond mae'n fater i'w ystyried.*

**Rheol 81.10**

**81.10 - Ceisiadau i ollwng gorchmynion traddodi**

(1) Gall diffynnydd y rhoddwyd gorchymyn traddodi iddo apelio i'w ollwng.

(2) Bydd unrhyw gais o’r fath yn cael ei wneud drwy hysbysiad cais o dan Rhan 23 yn yr achos dirmyg llys.

(3) Bydd y llys fydd yn gwrando ar gais o’r fath yn rhoi gorchymyn o’r fath fel y mae’n tybio sydd yn briodol.

*Nodyn ar 81.10:*

*Mae hyn yn lleihau ychydig o linellau a llawer o ddeunydd yn y Rhan 81 presennol ynghylch dileu dirmyg, rhyddhau’n gynnar o garchar etc.*

# Cwestiynau

Byddem yn gwerthfawrogi eich safbwyntiau ar y Cwestiynau ar dudalen 21 i dudalen 26

# Dogfen ymateb

YMGYNHGORIAD PWYLLGOR RHEOLAU TREFNIADAETH SIFIL

**Teitl:**

## Newid arfaethedig i reolau mewn perthynas â dirmyg llys; ailddrafftio CPR Rhan 81

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar Dydd Llun, 9 Mawrth 2020.

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 1 Mai 2020.

Mae'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil yn croesawu ymatebion i'r papur ymgynghori yma.

E-bostiwch eich ffurflen wedi ei chwblhau i CPRCconsultation@justice.gov.uk neu ei hanfon i

Carl Poole, Post Point 10.24, c/o Ministry of Justice, 102 Petty France, London SW1H 9AJ

**Diolch am gymryd rhan yn yr ymarferiad ymgynghori hwn.**

## Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i roi gwybodaeth i ni amdanoch chi a'i hatodi i’ch ymateb.

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| **Teitl swydd** neu ym mha rinwedd yr ydych yn ymateb i'r ymarferiad ymgynghori hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd etc.) | |
| **Dyddiad** | |
| **Enw cwmni/sefydliad** (os yn berthnasol) | |
| **Cyfeiriad** | |
| | |
| **Cod Post** | |
| Os dymunwch i ni gydnabod derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn os gwelwch yn dda | ☐<br>(ticiwch y blwch) |
| Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth ato, os yw'n wahanol i'r uchod | |
| | |
| | |

**Os ydych yn cynrychioli grŵp**, dywedwch wrthym beth yw enw'r grŵp a rhowch grynodeb am y bobl neu'r sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

**Atodwch hyn i’ch ymateb.**

## Holiadur

Mae fersiwn ar-lein o'r ymgynghoriad ar gael yn:
https://www.gov.uk/government/consultations/proposed-rule-changes-relating-to-contempt-of-court-redraft-of-cpr-part-81

Rydym yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol a nodwyd yn y papur ymgynghori hwn. Defnyddiwch yr holiadur ar-lein i ymateb drwy: https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/rule-changes-relating-contempt-of-court-cpr-81

Neu gallwch gyflwyno eich atebion i'r cwestiynau canlynol drwy e-bost i CPRCconsultation@justice.gov.uk neu eu hanfon at Carl Poole, Post Point 10.24, c/o Ministry of Justice, 102 Petty France, London SW1H 9AJ

## Cwestiynau

**C1 Yn gyffredinol, a ydych yn cytuno bod y diwygiadau a gynigir i CPR Rhan 81 yn gwella'r darpariaethau presennol?**

**Ydw**

**Na (Eglurwch eich ateb isod)**

**Sylwad:**

**C2 A ydych yn cytuno â'r drafft o reol 81.1?**

**Ydw**

**Na (Eglurwch eich ateb isod)**

**Sylwad:**

**C3 (i) A ydych yn cytuno â'r defnydd o'r termau 'hawlydd' a 'diffynnydd' yn rheol 81.2?**

**Ydw**

**Na (Eglurwch eich ateb isod)**

**Sylwad:**

**C3 (ii) Os oes gennych unrhyw safbwyntiau eraill ar y diffiniadau yn 81.2, nodwch nhw yma:**

**Q4**

*Ynghylch Rheol 81.3 nid ydym wedi ffurfio barn ynghylch a ddylai unigolion nad ydynt yn farnwyr Uchel Lys cyflogedig ond sydd yn eistedd fel barnwyr neu ddirprwy farnwyr yn yr Uchel Lys eistedd mewn achosion dirmyg llys. Gellid delio â'r mater yn rheolau'r llys mewn man arall yn y CPR (e.e. rheol 2.4 a Chyfarwyddyd Ymarfer 2B). Bydd barn yr uwch farnwriaeth yn bwysig mewn perthynas â'r mater yma.*

**C4 (i) Os oes gennych safbwyntiau ar hyn, nodwch nhw yma:**

*Penderfyniad polisi arall na ymdrinnir ag ef yn y rheol 81.3 a gynigir yw p'un ai neu i ba raddau y dylid rhoi'r grym i farnwyr rhanbarthol a/neu Feistri i benderfynu ar achosion dirmyg llys a chosbi dirmygwyr. Nid ydym wedi ffurfio barn ynghylch a ddylid newid y sefyllfa bresennol. Ar hyn o bryd mae barnwyr rhanbarthol yn delio â rhai materion dirmyg llys e.e. gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol (gweler PD 2B, para 8.1 a 8.3; cf. CPR r.2.4).*

**C4 (ii) Os oes gennych safbwyntiau ar hyn, nodwch nhw yma:**

**Q4 (iii) Os oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar reol 81.3, nodwch nhw yma:**

**C5** Mae rheol 81.4 yn cynnig y dylai'r rheol gael ei hategu gan un ffurflen newydd sydd yn adlewyrchu'r cynnwys, ynghyd â thempled electronig (neu bapur i'r rhai sydd wedi eu hallgau'n ddigidol) i'w llenwi, er mwyn sicrhau tegwch gweithdrefnol. *Rydym yn ystyried y dylai'r ffurflenni mwyaf niferus a ddefnyddir ar hyn o bryd gael eu neilltuo i ymarferiad dilynol ar wahân.*

**C5 (i) A ydych yn cytuno?**

**Ydw**

**Na (Eglurwch eich ateb isod)**

**Sylwad:**

**C5 (ii) Ar hyn o bryd mae rheol 81.4 wedi ei drafftio mewn trefn gronolegol. Dewis arall fyddai ei drafftio yn nhrefn pynciau. Os oes gennych safbwynt y naill ffordd neu'r llall, nodwch hynny yma:**

**C5 (iii)  Os oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar reol 81.4, nodwch nhw yma:**

**C6 (i) A ydych yn cytuno â'r drafft o reol 81.5?**

**Ydw**

**Na (Eglurwch eich ateb isod)**

**Sylwad:**

**C6 (ii)  Os oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar reol 81.5, nodwch nhw yma:**

**C7**  Wrth ddrafftio rheol 81.6 nid ydym yn mynegi safbwynt yma ynghylch y cwestiwn a ddylai'r barnwr sydd yn rhoi'r wŷs benderfynu ar y mater hefyd mewn rhai achosion neu beidio.  Ond, rydym yn credu y dylai'r wŷs ddangos i'r diffynnydd a fydd neu y gallai'r achos dirmyg llys gael ei dreialu gan y barnwr sydd yn rhoi'r wŷs neu gan farnwr gwahanol.

**C7 (i) A ydych yn cytuno â'r drafft o reol 81.6?**

**Ydw**

**Na (Eglurwch eich ateb isod)**

**Sylwad:**

**C7 (ii)  Os oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar reol 81.6, nodwch nhw yma:**

**C8 (i) A ydych yn cytuno â'r drafft o reol 81.7?**

**Ydw**

**Na (Eglurwch eich ateb isod)**

**Sylwad:**

**C8 (ii)  Os oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar reol 81.7, nodwch nhw yma:**

**C9**  Efallai y tybir ei bod yn od cynnwys mater mor fanwl â gwisgo gynau mewn rheol yn hytrach na mewn nodyn canllawiau neu Gyfarwyddyd Ymarfer.  Rydym yn credu i'r gwrthwyneb, bod cynnwys hynny yn y rheol yn rhoi pwyslais cyfiawn ar ddifrifoldeb achosion dirmyg llys.

**C9 (i) A ydych yn cytuno â'r drafft o reol 81.8?**

**Ydw**

**Na (Eglurwch eich ateb isod)**

**Sylwad:**

**C9 (ii) Gall y cwestiwn godi ynghylch a ddylid cadw unrhyw leiafswm cyfnod sydd yn bodoli ar hyn o bryd (e.e. saith diwrnod mewn achosion sydd yn perthyn i'r rheol 81.34(2) bresennol) y mae'n rhaid iddo ddod i ben rhwng y cyhuddiad/cyflwyno a'r gwrandawiad dirmyg llys; neu a yw tegwch gweithdrefnol yn cael ei ddiogelu'n ddigonol gan ddyletswydd y llys i roi digon o amser i'r diffynnydd baratoi. Os oes gennych safbwyntiau ar hyn, nodwch nhw yma:**

**C9 (iii) Os oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar reol 81.8, nodwch nhw yma:**

**C10** Rydym yn cwestiynu a yw rheol 83.2A (cais am ganiatâd i roi gwrit secwestru) yn briodol. Efallai y byddai'n well cyfyngu Rhan 81 i achosion dirmyg llys a gadael achosion gorfodi (yn cynnwys drwy atafaelu asedau) i Ran 83, sydd eisoes yn cynnwys darpariaethau cyffredinol ynghylch dulliau o orfodi dyfarniadau drwy writiau a gwarantau. Os mai dyna'r ffordd briodol o fwrw ymlaen, mae'n ymddangos bod y rheolau maith a chymhleth presennol yn y Rhannau VII a VIII presennol yn Rhan 81 yn ddiangen.

**C10 (i) A ydych yn cytuno â'r drafft o reol 81.9?**

**Ydw**

**Na (Eglurwch eich ateb isod)**

**Sylwad:**

**C 10 (ii) Mae'r cwestiwn yn codi ynghylch a ddylem gynnwys terfyn amser o, dyweder, dwy flynedd, pryd y daw'r warant draddodi i ben ( o dan reol bresennol 81.30(3)); er mwyn gwarchod y dirmygwr rhag gohirio gormesol o ran gorfodi'r warant. Nid ydym wedi cynnwys darpariaeth o'r fath yn y rheol drafft, ond mae'n fater i'w ystyried. Os oes gennych safbwyntiau ar hyn, nodwch nhw yma:**

**C10 (iii) Os oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar reol 81.9, nodwch nhw yma:**

**C11 (i) A ydych yn cytuno â'r drafft o reol 81.10?**

**Ydw**

**Na (Eglurwch eich ateb isod)**

**Sylwad:**

**C11 (ii)  Os oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar reol 81.10, nodwch nhw yma:**

**C12  A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar unrhyw agwedd o ailddrafftio CPR Rhan 81 ar Ddirmyg Llys a gynigir? Os oes gennych, nodwch hynny yma:**

# Diolch am ymateb